# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Asesiad Effaith Integredig

Bwriedir i'r asesiad effaith integredig hwn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth, gan sicrhau cydymffurfiaeth ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Ymgynghori Statudol yn erbyn Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**NODER: Dim ond os bydd cynigion yn rhai strategol eu natur neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen llenwi Adran 3 *Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol*. Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.**

**NODER: Disodlwch unrhyw destun llwyd, mae yno i'ch arwain. Sicrhewch fod lliw'r ffont yn cael ei drosi i ddu am resymau hygyrchedd.**

DRAFT

## 1. Manylion y Cynnig

| Swyddog Arweiniol | Pennaeth Gwasanaeth | Maes Gwasanaeth ac Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Kathryn Peters – Arweinydd y Prosiect<br>Karen Pugh – Rheolwr Llyfrgelloedd | Sue Richards | Gwasanaeth Llyfrgelloedd fel Hybiau | 1.8.24 |

| **Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?** *Rhowch fanylion cryno am y cynnig a dolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol.* |
|---|
| Y cynnig yw ystyried dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn y Fwrdeistref Sirol gyda golwg ar sicrhau gwasanaeth modern, arloesol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynnig yn dilyn model peilot Hwb Rhymni, a agorodd ym mis Ionawr 2024, drwy, o bosibl, ddatblygu 5 hwb arall mewn lleoliadau eraill ledled yr ardal: Bargod, Ystrad Mynach, Caerffili, Coed Duon a Rhisga. Mae hefyd yn ystyried ehangu'r Gwasanaeth Digidol, LibraryLink, a'r gwasanaeth Allgymorth Cymunedol fel modd o liniaru'r posibilrwydd o gau llyfrgelloedd cymunedol llai. I ategu'r weledigaeth ar gyfer llyfrgelloedd canol trefi fel hybiau cymunedol, mae dyfodol strategol ar gyfer y gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu o'r lleoliadau hyn wedi'i nodi yn y strategaeth ddrafft, 'Gweledigaeth Strategol Llyfrgelloedd Ddrafft 2024-2028'.<br><br>Casglu barn am ddyfodol llyfrgelloedd eraill drwy ddeall unrhyw opsiynau rhesymol sy'n gallu cael eu cyflwyno am ddim neu am gost isel i sicrhau cynaliadwyedd cyffredinol y gwasanaethau sy'n cael eu darparu o lai o adeiladau llyfrgell. Ymhellach, casglu barn am yr hyn y gallai unrhyw achos posibl o waredu un, neu ragor, o leoliadau drwy drosglwyddo asedau cymunedol, masnachol neu fath arall o waredu ei olygu i gymunedau.<br><br>Y nod yw gwella cynaliadwyedd y gwasanaeth llyfrgell a gwella'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael mewn llyfrgelloedd tref trwy ganolbwyntio ar lai o adeiladau sydd wedi'u lleoli'n strategol, a thrwy ystyried dyfodol y lleoliadau eraill, creu arbedion i gyfrannu at y diffyg cyffredinol yn y gyllideb mae'r Cyngor yn ei wynebu.<br><br>Diben yr asesiad effaith hwn yw ategu'r penderfyniad i ymgynghori ar y strategaeth ddrafft, 'Gweledigaeth Strategol Llyfrgelloedd Ddrafft 2024-2028' ac archwilio'r opsiynau posibl yn y dyfodol ar gyfer y lleoliadau sy'n weddill. |

## 2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

*(Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol.) Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd warchodedig.*

| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(pobl o bob oedran)* | Mae gan y cynnig fanteision cadarnhaol a negyddol i bobl hŷn ac iau.<br><br>Y manteision negyddol posibl yw pellteroedd teithio pellach i'r llyfrgell agosaf. Gall hyn effeithio ar bobl hŷn nad oes ganddyn nhw fynediad at eu cludiant eu hunain. Fodd bynnag, mae lleoliadau'r hybiau yng nghanol trefi ac, felly, maen nhw'n cael eu gwasanaethu'n well o ran trafnidiaeth gyhoeddus na rhai o'r lleoliadau anghysbell sy'n cynnal y llyfrgelloedd llai ar hyn o bryd. Gall pellteroedd teithio hirach effeithio ar bobl iau a all ddibynnu ar gludiant rhieni neu na fyddan nhw'n gallu cerdded i lyfrgell fwy lleol. | Mae lleoliadau'r hybiau arfaethedig wedi'u dewis oherwydd eu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwell. Bydd yr ôl troed cyffredinol yn bodloni'r amod teithio yn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru heb unrhyw aneddiad sy'n bellach na 10 munud o amser teithio o fan gwasanaeth sefydlog.<br><br>Mae gwasanaeth Library Link yn darparu gwasanaeth dosbarthu a chasglu i unigolion sy'n gaeth i'r tŷ ac unigolion agored i niwed. Bydd y gwasanaeth yn parhau ac nid oes cynnig y bydd unrhyw ostyngiad yn y gyllideb yn y maes hwn.<br><br>Bydd y model arfaethedig yn edrych ar ymarferoldeb darparu gwasanaeth | Dealltwriaeth o broffil defnyddwyr y llyfrgelloedd.<br><br>Pellteroedd teithio ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yr effeithiau cadarnhaol yw'r amrywiaeth well o wasanaethau sy'n gallu cael eu darparu o lyfrgell sy'n gweithredu fel hwb gyda mynediad at wasanaethau eraill y Cyngor a chymorth digidol. Gallai hyn fod o fudd arbennig i bobl hŷn a allai fod angen mwy o gymorth o'r fath. | dosbarthu a chasglu i leoliadau cymunedol drwy ymestyn Gwasanaeth Dosbarthu i'r Cartref a Gwasanaeth Allgymorth Cymunedol newydd i drefi a phentrefi llai o bosibl.<br><br>Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu amlygu'r effeithiau ar y grŵp hwn. | |
| **Anabledd** *(pobl ag anableddau/cyflyrau hirdymor)* | Efallai y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar bobl anabl y gallai fod yn well ganddyn nhw ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell mewn llyfrgell fwy lleol. Gall hyn fod yn berthnasol i bobl ag iechyd corfforol a meddyliol gwael.<br><br>Bydd effaith negyddol o ran argaeledd toiledau cyhoeddus os bydd rhai o'r llyfrgelloedd llai yn cau. | Mae gwasanaeth Library Link yn darparu gwasanaeth dosbarthu a chasglu i unigolion sy'n gaeth i'r tŷ ac unigolion agored i niwed. Bydd y gwasanaeth yn parhau ac nid oes cynnig y bydd unrhyw ostyngiad yn y gyllideb yn y maes hwn.<br><br>Bydd y model arfaethedig yn edrych ar ymarferoldeb darparu gwasanaeth dosbarthu a chasglu i leoliadau cymunedol drwy ymestyn Gwasanaeth Dosbarthu i'r Cartref a Gwasanaeth Allgymorth Cymunedol newydd i drefi a phentrefi llai o bosibl.<br><br>Mae'r Map Toiledau Cenedlaethol yn cynnwys adeiladau cyfagos eraill | Dealltwriaeth o broffil defnyddwyr y llyfrgelloedd.<br><br>Pellteroedd teithio ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Trafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael.<br><br>Map Toiledau Cenedlaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu amlygu'r effeithiau ar y grŵp hwn. | |
| **Ailbennu Rhywedd** *(pobl y mae eu hunaniaeth neu eu rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni)* | Niwtral | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu amlygu'r effeithiau ar y grŵp hwn. | Mae data cyfredol yn awgrymu y bydd effaith niwtral ar y grŵp hwn o ddefnyddwyr. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni unrhyw ddata newydd a chanlyniadau ymgynghoriad cymunedol. |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** *(pobl sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil)* | Niwtral | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu amlygu'r effeithiau ar y grŵp hwn. | Mae data cyfredol yn awgrymu y bydd effaith niwtral ar y grŵp hwn o ddefnyddwyr. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni unrhyw ddata newydd a chanlyniadau ymgynghoriad cymunedol. |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(menywod sy'n feichiog a/neu sydd ar absenoldeb mamolaeth)* | Gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar grwpiau gofalwyr a thwdlod a allai cael budd o gwrdd ag eraill sy'n byw yn eu hardaloedd lleol. | Mae sesiynau twdlod fel Amser Rhigymau yn cael eu cynnal ym mhob un o'r lleoliadau hwb arfaethedig sy'n cynnig rhagor o le pe bai'r galw'n cynyddu.<br><br>Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu amlygu'r effeithiau ar y grŵp hwn. | Dealltwriaeth o broffil defnyddiwr y llyfrgell.<br><br>Pellteroedd teithio ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Hil** *(pobl o gymunedau Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac o wahanol gefndiroedd hiliol)* | Niwtral | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu amlygu'r effeithiau ar y grŵp hwn. | Mae data cyfredol yn awgrymu y bydd effaith niwtral ar y grŵp hwn o ddefnyddwyr. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni unrhyw ddata newydd a chanlyniadau ymgynghoriad cymunedol. |
| **Crefydd neu Gred** *(pobl â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Niwtral | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu amlygu'r effeithiau ar y grŵp hwn | Mae data cyfredol yn awgrymu y bydd effaith niwtral ar y grŵp hwn o ddefnyddwyr. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni unrhyw ddata newydd a chanlyniadau ymgynghoriad cymunedol. |
| **Rhyw** *(menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n pennu eu rhywedd eu hunain)* | Negyddol o bosibl | Mae cynhyrchion urddas mislif ar gael ym mhob llyfrgell gyhoeddus yn yr ystad bresennol.<br><br>Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu i ganfod yr effeithiau ar fenywod a merched sy'n defnyddio'r rhain.<br><br>Bydd angen archwilio opsiynau i ddod o hyd i bwyntiau dosbarthu a lleoli eraill os bydd grant presennol | Dealltwriaeth o broffil defnyddwyr y llyfrgelloedd.<br><br>Gwnaed 280 o geisiadau mewn llyfrgelloedd am gynhyrchion urddas mislif dros gyfnod o dair wythnos yn ystod haf 2024. Mae'r stoc yn cael ei hailgyflenwi'n |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Llywodraeth Cymru (LlC) i ddarparu'r cynhyrchion hyn yn parhau. | rheolaidd gan ddefnyddio grant LlC. |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** *(lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol, arall)* | Niwtral | Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Bydd ymgynghori â'r gymuned yn helpu amlygu'r effeithiau ar y grŵp hwn. | Mae data cyfredol yn awgrymu y bydd effaith niwtral ar y grŵp hwn o ddefnyddwyr. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru yng ngoleuni unrhyw ddata newydd a chanlyniadau ymgynghoriad cymunedol. |

## 3. Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

*(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau yn wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn wirioneddol wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, os o gwbl, sy'n arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.)*

## Ystyriwch y grwpiau ychwanegol hyn sy'n agored i niwed a'r effaith y gallai eich cynnig ei chael arnyn nhw:

- *Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed*
- *Pobl â lefel isel o lythrennedd/ rhifedd*
- *Pensiynwyr*
- *Plant sy'n derbyn gofal*
- *Pobl ddigartref*
- *Gofalwyr*
- *Cymuned y Lluoedd Arfog*
- *Myfyrwyr*
- *Aelwydydd ag un oedolyn*
- *Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau*
- *Pobl sydd â phrofiad o'r system loches*
- *Pobl o bob oedran sy'n gadael lleoliad gofal*
- *Pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALlC)*
- *Pobl sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol*

DRAFT

| [Anfantais Economaidd-gymdeithasol]() | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Incwm Isel / Tlodi Incwm**<br>*(methu fforddio gwneud taliadau rheolaidd megis biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati)* | Mae effeithiau negyddol a chadarnhaol posibl. Gall yr angen i deithio i leoliad hwb cymunedol olygu costau uwch i bobl ar incwm isel neu mewn tlodi incwm. Mae gan bobl dros 60 oed yr hawl i deithio am ddim ar fysiau a theithio ar drên am bris gostyngol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i deuluoedd ar incwm isel deithio ymhellach.<br><br>Diffyg mynediad digidol os bydd llyfrgelloedd lleol yn cau.<br><br>Mae effaith gadarnhaol bosibl yn yr ystyr bod y gwasanaethau a fydd yn rhedeg o hybiau, os ydyn nhw'n cael eu hehangu ledled y Fwrdeistref Sirol, yn canolbwyntio ar les trigolion, e.e. Gofalu am Gaerffili, Cyngor ar Bopeth, Gwasanaethau Tai, allgymorth y GIG ac ati. | Ystyrir mai lleoliadau'r hybiau arfaethedig yw'r lleoliadau gorau ar gyfer mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus. Dim ond am oriau cyfyngedig bob wythnos y mae llyfrgelloedd llai ar agor. Y cynnig yw y bydd pob llyfrgell hwb ar agor am 35+ awr yr wythnos, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau.<br><br>Mae trenau ar lein Rhymni sy'n cysylltu Rhymni, Pontlotyn, Tirphil, Brithdir, Bargod, Gilfach Fargod, Pengam, Hengoed, Ystrad Mynach, Llanbradach, Eneu'r-glyn, Aber a Chaerffili yn rhedeg bob hanner awr. Mae gwasanaethau bws rheolaidd o ardaloedd anghysbell i'r lleoliadau y bwriedir eu datblygu fel hybiau.<br><br>Mae mynediad digidol at wasanaethau'r Cyngor yn ei le | Tystiolaeth o weithredu Hwb Rhymni am y chwe mis cyntaf a'r amrywiaeth o gwsmeriaid a gafodd eu cynorthwyo. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ar gyfer y rhai nad ydyn nhw'n gallu teithio.<br><br>Mae pobl sy'n gaeth i'r tŷ a phobl sy'n agored i niwed yn gallu defnyddio gwasanaeth Library Link. | |
| **Fawr ddim Cyfoeth a/neu Ddim Cyfoeth** *(digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a biliau ond nid oes gennych unrhyw gynilion i ddelio â gwariannau annisgwyl nac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |
| **Amddifadedd Materol** *(methu cael nwyddau na gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol megis yswiriant bywyd, atgyweirio nwyddau trydanol wedi torri neu brynu rhai newydd, cartref cynnes, hobïau ac ati)* | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. | Fel yr uchod. |
| **Amddifadedd Ardal** *(lle mae rhywun yn byw (ardaloedd gwledig), lle mae rhywun yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus). Effaith ar yr amgylchedd?* | Bydd cau llyfrgelloedd mewn lleoliadau pentrefol yn cael effaith andwyol ar argaeledd cyfleusterau yn y gymuned. | Ystyrir mai lleoliadau'r hybiau arfaethedig yw'r lleoliadau gorau ar gyfer mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, pe bai'r opsiwn i wneud arbedion drwy gau lleoliad neu edrych ar fodelau darparu amgen yn cael ei gymryd ar gyfer y | Nid yw data defnydd a nifer yr ymwelwyr ar gyfer y llyfrgelloedd llai yn cael eu cynnig ar hyn o bryd i fod yn rhan o gynnig yr hybiau. Mae gan lyfrgelloedd sydd wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn nifer ymwelwyr sy'n |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | lleoliadau sy'n weddill. Dim ond am oriau cyfyngedig bob wythnos y mae llyfrgelloedd llai ar agor. Y cynnig yw y bydd pob llyfrgell hwb ar agor am 35+ awr yr wythnos, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau.<br><br>Byddai ehangu gwasanaeth Library Link a Gwasanaeth Allgymorth Cymunedol newydd yn helpu lliniaru amddifadedd ardal. Gall hyn gynnwys defnyddio adeiladau cymunedol yn yr ardal fel mannau darparu ar gyfer Gwasanaeth Allgymorth Cymunedol. | amrywio o 2,000 i 40,000 o bobl y flwyddyn.<br><br>Mae nifer yr ymwelwyr â'r llyfrgelloedd hwb arfaethedig yn amrywio o 46,000 i 141,000 o bobl y flwyddyn (data 23/24). |
| **Cefndir Economaidd-gymdeithasol** *(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Niwtral o ran y cynnig yr ymgynghorir arno. Mae llyfrgelloedd canol trefi yn cynnig gwell cyfleusterau ar gyfer mynediad digidol, argraffu/sganio, cymorth astudio, cymorth ymchwil ac ati.<br><br>Llai o gyfleusterau ar gyfer grwpiau addysg gartref. | Fel yr uchod. | Data defnydd llyfrgelloedd.<br><br>Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llyfrgelloedd llai hygyrch i ysgolion a lleoliadau addysg.<br><br>Gwasanaethau cymorth cyflogaeth, e.e. mae 'Lluosi' yn cael ei redeg o brif lyfrgelloedd canol trefi. | | |
| **Anfantais Economaidd-gymdeithasol**<br>*(Pa effaith gronnol a gaiff y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd warchodedig/nodweddion gwarchodedig neu'r ffaith eu bod yn agored i niwed neu am eu bod eisoes o dan anfantais)* | Bydd cau llyfrgelloedd mewn lleoliadau pentrefol yn cael effaith andwyol ar argaeledd cyfleusterau yn y gymuned.<br><br>Gall yr angen i deithio i leoliad hwb cymunedol olygu costau uwch i bobl ar incwm isel neu mewn tlodi incwm.  Mae gan bobl dros 60 oed yr hawl i deithio am ddim ar fysiau a theithio ar drên am bris gostyngol.<br><br>Mae effaith gadarnhaol bosibl yn yr ystyr bod y gwasanaethau a fydd yn rhedeg o hybiau, os ydyn nhw'n cael eu hehangu ledled y Fwrdeistref Sirol, yn canolbwyntio ar les trigolion, e.e. Gofalu am Gaerffili, Cyngor ar Bopeth, Gwasanaethau Tai, allgymorth y GIG ac ati. | Mae gwasanaethau hybiau wedi'u cynllunio i ddarparu pwynt mynediad cyfannol i bobl sy'n wynebu anfanteision lluosog.  Dim ond am oriau cyfyngedig bob wythnos y mae llyfrgelloedd llai ar agor. Y cynnig yw y bydd pob llyfrgell hwb ar agor am 35+ awr yr wythnos, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau.<br><br>Mae trenau ar lein Rhymni sy'n cysylltu Rhymni, Pontlotyn, Tirphil, Brithdir, Bargod, Gilfach Fargod, Pengam, Hengoed, Ystrad Mynach, Llanbradach, Eneu'r-glyn, Aber a Chaerffili yn rhedeg bob hanner awr. Mae gwasanaethau bws rheolaidd o ardaloedd anghysbell i'r lleoliadau y bwriedir eu datblygu fel hybiau. | Data defnydd llyfrgelloedd.<br><br>Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Byddai ehangu gwasanaeth Library Link a Gwasanaeth Allgymorth Cymunedol newydd posibl yn helpu lliniaru effaith gronnus anfantais economaidd-gymdeithasol. | |

DRAFT

## 4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

*(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw rai/pob un o Amcanion Llesiant y Cyngor?  Sydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.  A fydd yn cael unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral)? Os bydd yn cael effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi'u lliniaru?)* [Cynllun Corfforaethol]

| | |
|---|---|
| **Amcan 1 – Galluogi ein plant i lwyddo mewn addysg** | Y dyhead perthnasol o dan yr amcan hwn yw:<br>• Byddwn ni wedi gwella'r sgiliau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg), rhifedd, digidol, corfforol a sgiliau ehangach i roi gwell cyfleoedd bywyd i'n dysgwyr ni.<br><br>Er bod y rhan fwyaf o'r camau i'w cymryd o dan yr amcan hwn yn ymwneud ag ysgolion, mae darparu llyfrgelloedd fel mannau astudio a chymorth yn hanfodol i gyflawni'r nodau. Darperir ymweliadau addysgol gan ysgolion a nifer o ddigwyddiadau darllen a llythrennedd i bobl ifanc gan y gwasanaethau llyfrgell ar draws pob grŵp oedran. Er bod y cynnig hwn yn awgrymu y gallai ôl troed llyfrgell lai fodoli, bydd y gwasanaethau cymorth addysg hynny ar gyfer pobl ifanc yn parhau o leoliadau'r hybiau sy'n weddill. Mae llyfrgelloedd hwb yn well o ran staffio a gallan nhw aros ar agor am 35+ awr yr wythnos, gan gynnwys gyda'r nos ac ar ddydd Sadwrn, h.y. y tu allan i oriau ysgol. |
| **Amcan 2 – Galluogi ein trigolion i ffynnu** | Y dyheadau perthnasol o dan yr amcan hwn yw:<br>• Byddwn ni wedi ymateb i'n demograffeg sy'n heneiddio, gan gynnwys creu cymunedau oed-gyfeillgar<br>• Byddwn ni wedi galluogi'r gymuned a'r sector gwirfoddol i gynorthwyo ein trigolion ni.<br><br>Mae gan lyfrgelloedd gyfrifoldeb yn ôl Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i wella llythrennedd digidol, ac rydyn ni'n gwybod bod llawer o oedolion hŷn yn cael trafferth i gael mynediad at wasanaethau yn y modd hwn. Bydd cymorth digidol yn parhau i fod yn rhan annatod o ddarpariaeth y model arfaethedig, a dylai darparu gwasanaethau lluosog mewn un lleoliad helpu oedolion hŷn a mwy agored i niwed i gael mynediad at y cymorth sydd ar gael gan wasanaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y gallai llai o ddarpariaeth fod ar gael mewn mwy o gymunedau lleol; y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei wrthbwyso gan |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | wasanaethau gwell mewn lleoliadau hwb sydd ar gael dros oriau agor hirach. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn gwasanaethu llyfrgelloedd hwb yn well gan eu bod nhw wedi'u lleoli yng nghanol trefi. Mae llyfrgelloedd wedi cael eu defnyddio fel 'mannau cynnes' yn ystod yr argyfwng costau byw presennol a'r gobaith yw y bydd yr un croeso yn parhau i gael ei ddarparu.<br><br>Mae gan y sector cymunedol a'r sector gwirfoddol eisoes bresenoldeb cryf yn y llyfrgelloedd mwy drwy ddefnyddio ystafelloedd cyfarfod a mannau cyfarfod sy'n gallu cael eu cadw i gwrdd â'u cleientiaid nhw. Bydd y model hwb yn parhau i gynorthwyo'r cynnig hwn. |
| **Amcan 3 – Galluogi ein cymunedau i ffynnu** | Dau o'r camau o dan yr amcan hwn yw:<br>• Datblygu presenoldeb modern mewn cymunedau sy'n gwneud y defnydd gorau o'n hasedau ni wrth ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ac, ar yr un pryd, agor ein gofodau i'w defnyddio gan gymunedau a phartneriaid drwy ddatblygu hybiau cymunedol i ddarparu gwasanaethau wedi'u targedu'n well.<br>• Ceisio gwella cysylltedd digidol a sgiliau ledled ein cymunedau.<br><br>Bwriad y cynnig hwn yw cyflawni'r camau hynny yn y Cynllun Corfforaethol drwy adeiladu ar y model peilot yn Rhymni. |
| **Amcan 4 – Galluogi ein heconomi i dyfu** | Un o'r dyheadau o dan yr amcan yw:<br>• Bydd gennym ni berthynas gryfach gyda'n cymuned fusnes ni drwy adfywio canol trefi.<br>Un o'r camau yw:<br>• Helpu preswylwyr gyda rhwystrau i gyflogaeth, gan gynnwys pobl economaidd anweithgar, di-waith tymor byr, di-waith tymor hir a phobl ifanc 16-24 oed nad ydyn nhw mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.<br><br>Mae'r 6 hwb sy'n cael eu cynnig o dan y model hwn yng nghanol ein prif drefi, ac mae'r adeiladau'n bwysig ar gyfer cynlluniau adfywio canol trefi. Mae gwasanaethau cymorth cyflogaeth yn rhedeg o'n llyfrgelloedd ni gan fod y rhain yn amgylchedd cyfleus ac addas i |

| | |
|---|---|
| | gwrdd â chleientiaid sydd angen cymorth. Gall canolbwyntio ar 6 hwb helpu canolbwyntio'r cymorth hwnnw. |
| **Amcan 5 – Galluogi ein hamgylchedd i fod yn wyrddach** | Dim effaith uniongyrchol. Er y bydd cau lleoliadau llai o faint sy'n llai effeithlon o ran carbon yn helpu tuag at dargedau sero net cyffredinol. |

| **4a. Cysylltiadau â Pholisïau perthnasol eraill y Cyngor**<br>*(Sut y bydd eich cynnig yn cyflawni unrhyw bolisïau perthnasol eraill sydd gan y Cyngor?)* |
|---|
| Ceisio Rhagoriaeth Gyda'n Gilydd – [Strategaeth Addysg 2022-2025](#)<br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 – Amcan Cydraddoldeb 1 – Mynediad at Wasanaethau a Gwybodaeth, Amcan Cydraddoldeb 2 – Addysg, Sgiliau a Chyflogaeth |

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Y Pum Ffordd o Weithio

*(Gelwir hefyd yn egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut y bydd unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)*

| **Y Pum Ffordd o Weithio** | **Sut rydych chi wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig?** |
|---|---|
| **Hirdymor**<br> | Nid yw'r ystad lyfrgelloedd bresennol yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae ein staffio wedi'i wasgaru'n rhy denau fel ei bod yn anodd cynnal oriau agor ar gyfer pob lleoliad. Dim ond am oriau cyfyngedig y mae rhai llyfrgelloedd ar agor, rhai cyn lleied â 15 awr yr wythnos. Bydd canolbwyntio ar lai o lyfrgelloedd mewn lleoliadau gwell yn helpu cynaliadwyedd y gwasanaeth yn y tymor hir. Rydyn ni'n fwy tebygol o allu ymateb i geisiadau defnyddwyr gyda rhagor o staff, e.e. y Gymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Atal**  | Mae gwasanaethau hwb wedi'u cynllunio i ateb cwestiynau lluosog trigolion o un lleoliad drwy weithredu fel pwynt mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Mae Hwb Rhymni wedi canolbwyntio ar les trigolion yr ardal a'r gobaith yw y gellir ailwneud y model mewn lleoliadau eraill ledled y Fwrdeistref Sirol. |
| **Integreiddio**  | Mae asiantaethau partner yn y sector cyhoeddus a'r sector cymunedol eisoes yn gwneud defnydd o'n gofodau llyfrgell ni ar gyfer cyfarfodydd â chleientiaid ac i gyflwyno cyrsiau/cymorthfeydd/grwpiau, e.e. Heddlu Gwent, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Menter Iaith. Y gobaith yw y gellir cryfhau ac ehangu hyn o dan fodel hwb. |
| **Cydweithio**  | Gweler Integreiddio uchod. |
| **Cynnwys**  | Cynnig yw hwn i ymgynghori â chymunedau ar y symudiad arfaethedig i 6 Hwb ac i ddeall beth allai'r goblygiadau fod i gymunedau a defnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor. |

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| Nodau Llesiant | **A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut?** |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-* | Bydd ad-drefnu'r ystad lyfrgelloedd i lai o leoliadau yn helpu cyrraedd targedau carbon sero net y Cyngor mewn perthynas ag adeiladau ar gyfer 2030. Fodd bynnag, gallai hyn gael ei wrthbwyso gan ragor o deithio gan gymunedau mewn perthynas â thargedau |

DRAFT

| | |
|---|---|
| *eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas* | 2050. Disgrifir cymorth addysg a chymorth i gyflogaeth uchod mewn perthynas ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol, yn benodol, 'Galluogi ein Trigolion i Ffynnu' a 'Galluogi ein Plant i Lwyddo mewn Addysg'. |
| **Cymru gydnerth**<br>*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)* | Ddim yn uniongyrchol berthnasol |
| **Cymru iachach**<br>*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol* | Cynhelir gweithgareddau hybu iechyd o lyfrgelloedd. Mae llyfrgelloedd mwy mewn sefyllfa well i ddarparu ar gyfer partneriaid fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dim Smygu Cymru, MIND a'r Rhwydwaith Lles Integredig, sydd eisoes yn defnyddio ein lleoliadau mwy o faint i gwrdd â chleientiaid a darparu gwasanaethau. |
| **Nodau Llesiant** | **A yw'r cynnig yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y Nodau Llesiant a sut?** |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)* | Fel y disgrifir o dan Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol uchod. Yn benodol, 'Galluogi ein Trigolion i Ffynnu' |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cymru o gymunedau cydlynus**<br>*Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da* | Fel y disgrifir o dan Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol uchod. Yn benodol, 'Galluogi ein Cymunedau i Ffynnu' |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden* | Gweler yn benodol Asesu'r Gymraeg yn adran 7 yr Asesiad Effaith hwn. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>*Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang* | Bydd cynnal llai o lyfrgelloedd yn cynorthwyo gyda thargedau sero net y Cyngor erbyn 2030. Fodd bynnag, rhaid ystyried hyn yn erbyn y ffaith y gallai rhagor o bobl deithio i lyfrgelloedd hwb gan effeithio'n negyddol ar y targed cymunedol 2050 y mae gan y Cyngor ddyletswydd i'w hyrwyddo. |

## 7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

*(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw dyledus' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.)* [*Safonau Llunio Polisi - Dogfen Gyngor Arferion Da*]

Cymraeg

DRAFT

| Gofyniad | A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon? *Er enghraifft, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Nodyn Cyngor Technegol 20, Cynllun Datblygu Lleol, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion* |
|---|---|---|---|
| **Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd 2022-2027 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Proffil Iaith** | Niwtral. Bydd cymorth ar gyfer y Gymraeg yn parhau i gael ei ddarparu mewn lleoliadau hwb. Ariannwyd Hwb Dysgu Cymunedol Idris Davies (Hwb Rhymni) yn benodol i fod yn ganolfan i gadw'r casgliad a'r stoc o lyfrau Cymraeg. Rydyn ni'n fwy tebygol o gael staff sy'n siarad Cymraeg mewn lleoliadau hwb.<br><br>Bydd partneriaid fel Menter Iaith yn gallu darparu cymorth drwy weithgareddau megis clybiau sgwrsio mewn lleoliadau hwb. | Ni ragwelir dim. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion yn helpu sefydlu a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai effeithio ar y Gymraeg a thargedau'r Cyngor ei hun drwy ei strategaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gymraeg. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Strategaeth y Gymraeg 2017-2022 |
| **Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.**<br>*Safonau 88-93 yn benodol* | Dim effaith. Mae'r 6 hwb a gynigir yn y model yn cyd-fynd â'r llyfrgelloedd y mae'n ofynnol iddyn nhw ddarparu gwasanaethau derbynfa | Dim | Safon 64 a safonau 88-93 yn yr Hysbysiad Cydymffurfio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dwyieithog o dan Hysbysiad Cydymffurfio’r Cyngor – Safon 64. Rydyn ni'n fwy tebygol o gael staff sy’n siarad Cymraeg mewn lleoliadau hwb. | | |
| **Cyfleoedd i hybu’r Gymraeg,** *er enghraifft, statws, defnydd o wasanaethau Cymraeg, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd dyddiol yn y gwaith/y gymuned* | Dim effaith. Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerffili yn hyrwyddo mynediad at adnoddau Cymraeg, gan gynnwys drwy ei gasgliad digidol. | Dim. | |
| **Gofyniad** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?** | **Os bydd yn cael unrhyw effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r farn hon?** *Er enghraifft, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Nodyn Cyngor Technegol 20, Cynllun Datblygu Lleol, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion* |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg,** *er enghraifft, staff, trigolion ac ymwelwyr* | Dim effaith. Mae'r 6 llyfrgell a gynigir o dan y model hwb eisoes yn darparu gwasanaethau derbynfa dwyieithog. | Dim. | Safon 64 yn Hysbysiad Cydymffurfio’r Cyngor. |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** | Bydd yr holl wasanaethau y mae'n ofynnol eu darparu'n ddwyieithog yn cael eu cynnal. | Dim. | Hysbysiad Cydymffurfio’r Cyngor. |

DRAFT

| 7a. Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
|---|
| Ni chredir y bydd unrhyw effaith negyddol bosibl ar y defnydd o'r Gymraeg, cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith, niferoedd a/neu ganrannau siaradwyr Cymraeg, rhuglder a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg, trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref neu o un genhedlaeth i'r nesaf, defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gostyngiad yn isadeiledd cyfryngau digidol a/neu gyfryngau Cymraeg, neu hybu'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd a'i statws. Os bydd unrhyw newidiadau staffio o ganlyniad i ad-drefnu i lai o leoliadau, bydd y broses benodi ar gyfer unrhyw swyddi newydd neu wag yn sicrhau bod sgiliau Cymraeg yn cael eu hystyried. Rydyn ni'n fwy tebygol o gael staff sy'n siarad Cymraeg mewn lleoliadau hwb. Mae angen i ni sicrhau bod partneriaid sy'n defnyddio ein gofodau yn darparu gwybodaeth ddwyieithog lle bo modd. Bydd angen i ddarparwyr a gomisiynir yn uniongyrchol sicrhau cynnig dwyieithog. |

## 8. Data a Gwybodaeth

*(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio gwaith datblygu'r cynnig? Gall tystiolaeth gynnwys canlyniadau ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiadau o gwynion a chanmoliaeth cwsmeriaid a/neu adborth defnyddwyr gwasanaeth eraill, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)*

| **Data/tystiolaeth**<br>*(Rhowch ddolen i'r adroddiad os yw'n briodol)* | **Canfyddiadau perthnasol allweddol** | **Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?** |
|---|---|---|
| Data defnydd llyfrgelloedd<br><br>Oriau agor llyfrgelloedd<br><br>Pellter teithio rhwng lleoliadau<br><br>Map Toiledau Cenedlaethol<br><br>Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | Mae'r data'n tueddu i gefnogi'r cynnig o ran:<br>• maint yr ystad lyfrgelloedd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill o faint tebyg<br>• nifer y lleoliadau ag un aelod o staff gydag oriau agor cyfyngedig | Mae'r data'n awgrymu ei bod yn briodol cynnal ymgynghoriad cymunedol ar y model arfaethedig i ddeall unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r cynigion ac a oes modd lliniaru'r rhain yn rhesymol. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Meincnodi gyda gwasanaethau tebyg eraill<br><br>Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru<br><br>Data staffio – angen oriau cyflenwi heb ei drefnu<br><br>Nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaeth<br><br>Tystiolaeth o weithredu Hwb Rhymni yn ystod y 6 mis cyntaf | • llwyddiannau gweithredu Hwb Rhymni yn ystod y chwe mis cyntaf | |

| **A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi?** *Gellir cynnwys manylion am ymgynghori pellach yn Adran 9.* |
|---|
| Mae'n bosibl y bydd gennym ni rai bylchau o ran deall sut y bydd y cynigion hyn yn effeithio ar unigolion a chymunedau, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, y rhai sy'n llai galluog yn ddigidol a'r rhai sydd ag amgylchiadau economaidd-gymdeithasol tlotach. Mae'n bosibl y bydd yr ymgynghoriad cymunedol yn awgrymu bod angen casglu data pellach i ddeall unrhyw agweddau nad ydyn nhw wedi'u cynnwys uchod. |

## 9. Ymgynghori

*(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed os nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gall pobl ddisgwyl, yn ddilys ddigon, y cynhelir ymgynghoriad. Os penderfynwyd bod angen cynnal ymgynghoriad, mae'n rhaid dilyn Egwyddorion Gunning. Ystyriwch y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu. Noder ei bod yn bosibl y bydd angen diweddaru hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac er mwyn atgyfnerthu'r asesiad.*

| Disgrifiwch yn gryno unrhyw ymgyngoriadau diweddar neu arfaethedig gan roi sylw arbennig i ddangos tystiolaeth bod Egwyddorion Gunning wedi'u dilyn. |
|---|
| Y cynnig yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn yw cynnal ymgynghoriad cymunedol ar y model arfaethedig ar gyfer 6 Hwb y Cyngor fel y'i nodir yn y weledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol ar gyfer llyfrgelloedd fel hybiau yn strategaeth'Gweledigaeth Strategol Llyfrgelloedd Ddrafft 2024-2028'. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried gan aelodau etholedig y Cyngor a'r Cabinet wrth benderfynu ar ddyfodol gwasanaethau llyfrgelloedd yn y Fwrdeistref Sirol. |

## *10. Monitro ac Adolygu*

| | |
|---|---|
| **Sut y bydd y broses o roi'r cynnig ar waith, a'i effaith, yn cael eu monitro, gan gynnwys rhoi unrhyw ddiwygiadau ar waith?** | Bydd y cynnig hwn yn cael ei fonitro drwy raglen Tîm Mwstro Caerffili. |
| **Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer y gwaith monitro?** | Gweler uchod. |
| **Sut bydd canlyniadau'r monitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?** | Gellir datblygu'r cynnig hwn ymhellach unwaith y bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn hysbys. |
| **Pryd mae disgwyl i'r cynnig gael ei adolygu?** | I'w gadarnhau. |
| **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd hyn yn digwydd?** | Sue Richards - Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg a noddwr y prosiect |

DRAFT

### *11. Argymhelliad a Rhesymau*

| | |
|---|---|
| ✕ | Rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw newidiadau |
| ☐ | Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a amlinellwyd |
| ☐ | Gwrthod y cynnig oherwydd effaith anghymesur ar gydraddoldeb, tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol |

**Ydych chi wedi cysylltu â swyddogion perthnasol am gyngor ac arweiniad? Ydw**

### 12. Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad

*(Isod, rhowch grynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig. Dylech chi gynnwys y crynodeb hwn yn yr adran "Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig" yn Nhempled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylech chi gyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â chynnig yr Adroddiad).*

| |
|---|
| Y cynnig yw cynnal ymgynghoriad cymunedol ar ddatblygu 5 hwb cymunedol yn y llyfrgelloedd ym Margod, Ystrad Mynach, Caerffili, Coed Duon a Rhisga, gan ddilyn y model peilot yn Rhymni.<br><br>Ymhellach, deall, o ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw a'r data sydd ar gael, sut i reoli dyfodol y llyfrgelloedd sy'n weddill. Gall yr opsiynau ar gyfer y rhain gynnwys cau'r lleoliadau, trosglwyddo asedau cymunedol neu fodel darparu amgen arall. Mae'r cynnig yn cynnwys y posibilrwydd o ehangu gwasanaeth Library Link a Gwasanaeth Allgymorth Cymunedol newydd. |

DRAFT

## 13. Rheoli Fersiynau

*(Dylech chi ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad Effaith Integredig wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu llywio'r cynnig. Bydd yr adran 'Rheoli Fersiynau' yn gweithredu fel trywydd archwilio er mwyn dangos tystiolaeth o'r ffordd mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi datblygu dros amser)*

| Rhif Fersiwn | Awdur | Disgrifiad byr o'r diwygiadau/diweddariad | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|
| 1 | Kathryn Peters | Drafft Cychwynnol | 2.8.24 |
| 2 | Kathryn Peters | Drafft Diwygiedig | 12.9.24 |
| | Kathryn Peters | Drafft Terfynol | 25.9.24 |

### *Awdur yr Asesiad Effaith Integredig*

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Kathryn Peters** |
| **Teitl y swydd:** | **Rheolwr Gwella Gwasanaethau a Phartneriaethau** |
| **Dyddiad:** | **2.8.24** |

### *Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth*

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Sue Richards** |
| **Teitl y swydd:** | **Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg** |
| **Dyddiad:** | **2.10.24** |
| **Llofnod** | **S. Richards** |

DRAFT